Fframwaith Rheoleiddio Arbennig: Cymwysterau Galwedigaethol - Amodau a Gofynion COVID-19

MEHEFIN 2020

Cynnwys

Cyflwyniad 1

Amod VQCov1 Cymhwysiad, Dehongliad a diffiniadau 2

Amod VQCov2 Cyhoeddi canlyniadau yn haf 2020 5

Amod VQCov3 Asesiadau a chanlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori 1 yn haf 2020 6

Amod VQCov4 Asesiadau a chanlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori 2 yn haf 2020 8

Amod VQCov5 Asesiadau a chanlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori 3 yn haf 2020 10

Amod VQCov6 Cymorth i Ganolfannau 11

Amod VQCov7 Egwyddorion i'w cymhwyso 12

Amod VQCov8 Cadw cofnod o wneud penderfyniadau 13

Amod VQCov9 Gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau 14

Amod VQCov10 Cyfle asesu yn hydref 2020 16

Amod VQCov11 Hysbysiadau Cyngor Technegol 18

Gofynion mewn perthynas â chyfrifo canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori 1 a Chymwysterau Cam 2 19

- Dull cyffredinol 19
- Ffynonellau tystiolaeth gwahanol 20
- Datblygu dull sy'n sicrhau'r dystiolaeth fwyaf dibynadwy 26
- Gwiriad cyffredinol ar y canlyniadau 30

Gofynion mewn perthynas ag Addasu asesiadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol (VQ) 31

- Gofynion cyffredinol mewn perthynas ag Addasiadau 31
- Ystyriaethau cydraddoldeb 32
- Cymwysterau proffesiynol a thrwyddedau i ymarfer 32

Egwyddorion i'w cymhwyso 34

- Yr egwyddorion 34
- Y cydbwysedd rhwng yr egwyddorion 35

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n nodi ein gofynion rheoleiddio ar gyfer cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol (VQ) yn ystod pandemig Covid-19.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Mae'r ddogfen hon yn nodi Amodau VQ Covid-19. Daw'r Amodau hyn i rym ar **3 Mehefin 2020** ar gyfer yr holl gymwysterau galwedigaethol sy'n disgyn o fewn categorïau 1-3 fel y'u diffinnir yn Amod VQCov1.8.

Mae hefyd yn nodi ein gofynion mewn perthynas â'r canlynol -

- cyfrifo'r canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori 1 a Chymwysterau Categori 2.
- addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau Categori 1, Cymwysterau Categori 2 a Chymwysterau Categori 3.
- yr egwyddorion i'w defnyddio gan gyrff dyfarnu wrth gyfrifo canlyniadau ac Addasu asesiadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

O ran yr holl gymwysterau galwedigaethol y mae'r Amodau a nodir yn y ddogfen yn berthnasol iddynt, ac eithrio i'r graddau a nodir yn yr Amodau hynny, rhaid i gyrff dyfarnu hefyd gydymffurfio â:

- ein dogfen Amodau Cydnabod Safonol[1] sy'n berthnasol i bob corff dyfarnu a chymwysterau, ac
- yr holl Ddogfennau Rheoleiddio perthnasol.[2]

[1] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/
[2] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/rhestr-o-ddogfennau-rheoleiddio/

Amod VQCov1 Cymhwysiad, Dehongliad a diffiniadau

Cymhwysiad

VQCov1.1 Mae Amodau VQCov yn berthnasol –

(a) i bob cymhwyster VQ, a

(b) tan unrhyw ddyddiad a bennir yn, neu y penderfynir arno o dan, unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru o dan yr Amod hwn.

VQCov1.2 Gall unrhyw hysbysiad o'r fath a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru -

(a) gael ei roi mewn perthynas ag un neu fwy -

(i) VQ, neu

(ii) Amodau VQCov,

(b) gael ei amrywio neu ei dynnu'n ôl gan Cymwysterau Cymru ar unrhyw adeg cyn y dyddiad a bennir ynddo neu y penderfynir arno, a

(c) gynnwys unrhyw ddarpariaethau trosiannol ac arbed y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn briodol.

VQCov1.3 Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â gofynion unrhyw ddarpariaethau trosiannol ac arbed sydd wedi'u cynnwys mewn hysbysiad a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru o dan Amod VQCov1.2.

Dehongliad a diffiniadau

VQCov1.4 Oni bai bod darpariaeth arall wedi'i gwneud yn Amod VQCov1.8, bydd y canlynol yn berthnasol i Amodau VQCov -

(a) y rheolau dehongli a'r diffiniadau a amlinellir yn Amod Safonol J1,

VQCov1.5 Ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn Amod VQCov1.6, mae'r gofynion a osodir gan Amodau VQCov yn berthnasol yn ychwanegol at y gofynion a osodir gan yr Amodau Cydnabod Safonol ac unrhyw Amodau Lefel Cymhwyster ac Amodau Lefel Pwnc perthnasol.

VQCov1.6 I'r graddau bod unrhyw anghysondeb rhwng -

(a) un o ofynion Amod VQCov, a

(b) gofyniad Amod Cydnabod Cyffredinol,

fel na allai corff dyfarnu gydymffurfio â'r ddau ofyniad o'r fath, rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio â gofyniad Amod VQCov ac nid oes rheidrwydd arno i gydymffurfio â gofyniad yr Amod arall.

VQCov1.7 Oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu fel arall, yn Amodau VQCov mae cyfeiriadau at 'ganlyniad' yn golygu canlyniad i uned neu'r VQ, fel sy'n berthnasol.

VQCov1.8 Yn yr Amodau hyn bydd i'r geiriau canlynol yr ystyr a roddir iddynt isod (a dylid dehongli ymadroddion cytras yn unol â hynny) –

Addasiadau

Unrhyw newidiadau a wneir gan gorff dyfarnu i gynllun, lleoliad, darpariaeth neu farcio asesiad ar gyfer VQ y mae'n ei ddarparu.

Cymhwyster Categori 1

Cymhwyster a restrwyd yn Gymhwyster Categori 1 gan Cymwysterau Cymru ac a nodwyd ei fod yn gymhwyster o'r fath ar wefan Cymwysterau Cymru neu ar wefan sydd ar gael gan neu ar ran Ofqual.

Cymhwyster Categori 2

Cymhwyster a restrwyd yn Gymhwyster Categori 2 gan Cymwysterau Cymru ac a nodwyd ei fod yn gymhwyster o'r fath ar wefan Cymwysterau Cymru neu ar wefan sydd ar gael gan neu ar ran Ofqual.

Cymhwyster Categori 3

Cymhwyster a restrwyd yn Gymhwyster Categori 3 gan Cymwysterau Cymru ac a nodwyd ei fod yn gymhwyster o'r fath ar wefan Cymwysterau Cymru neu ar wefan sydd ar gael gan neu ar ran Ofqual.

Ymgeisydd Preifat

Dysgwr nad oes Canolfan Berthnasol yn gysylltiedig ag ef.

Canolfan Berthnasol

Mewn perthynas â Dysgwr, Canolfan -

(a) y mae'r Dysgwr wedi'i gofrestru â hi, ac

(b) a gyfrannodd yn sylweddol at baratoi'r Dysgwr ar gyfer yr asesiad (p'un ai trwy addysgu neu gyfarwyddyd a ddarperir gan Athrawon a gyflogir ganddi neu fel arall).

Hysbysiad Cyngor Technegol

Cyngor a ddarperir gan Cymwysterau Cymru i gorff dyfarnu yn ysgrifenedig mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n berthnasol i Amodau VQCov.

VQ

Cymhwyster sy'n unrhyw un o'r canlynol –

(a) Cymhwyster Categori 1,

(b) Cymhwyster Categori 2, neu

(c) Cymhwyster Categori 3.

Amod VQCov2 Cyhoeddi canlyniadau yn haf 2020

VQCov2.1 Mewn perthynas â VQ y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi canlyniad i bob Dysgwr sydd –

(a) naill ai –

(i) wedi'i gofrestru i gymryd, ar neu ar ôl 20 Mawrth 2020, asesiad a fyddai wedi arwain at gyhoeddi canlyniad, neu

(ii) y gellid yn rhesymol fod wedi disgwyl cael ei gofrestru felly gan y corff dyfarnu, ac

(b) i fod i gael y cymhwyster hwnnw yng Nghymru.

VQCov2.2 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi'r canlyniad hwnnw –

(a) yn unol ag unrhyw ddyddiad neu amserlen a gyhoeddir mewn perthynas â'r cymhwyster o dan Amod H6.1 (e), neu

(b) pan nad yw'n bosibl cyhoeddi'r canlyniad yn unol â'r dyddiad hwnnw neu'r amserlen –

(i) cyn gynted â phosibl, neu

(ii) yn unol ag unrhyw ddyddiad neu amserlen amgen a gymeradwywyd ymlaen llaw gan Cymwysterau Cymru.

Amod VQCov3 Asesiadau a chanlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori 1 yn haf 2020

VQCov3.1 Mewn perthynas â phob canlyniad a roddir i Ddysgwr o dan Amod VQCov2.1 mewn perthynas â Chymhwyster Categori 1 y mae'n ei ddarparu, lle na all ar hyn o bryd gyflawni a/neu farcio'r asesiadau sydd i'w cymryd ar gyfer y cymhwyster hwnnw fel sy'n arferol –

(a) rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y canlyniad yn cael ei gyfrifo –

(i) yn unol ag unrhyw ofynion, a

(ii) gan roi sylw i unrhyw ganllawiau,

a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u hadolygu o bryd i'w gilydd,

(b) dim ond pan nad oes tystiolaeth ddigonol i fodloni gofynion Cymwysterau Cymru ar gyfer cyfrifo canlyniadau, rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y canlyniad yn seiliedig ar lefel y cyrhaeddiad a ddangosir gan y Dysgwr mewn asesiad wedi'i Addasu.

VQCov3.2 Pan fydd corff dyfarnu yn Addasu asesiad o dan Amod VQCov3.1(b), rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i wneud hynny –

(a) yn unol ag unrhyw ofynion, a

(b) gan roi sylw i unrhyw ganllawiau,

a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u hadolygu o bryd i'w gilydd.

VQCov3.3 Mewn perthynas â Chymhwyster Categori 1 y mae'n ei ddarparu, gall corff dyfarnu ddefnyddio nifer o wahanol ddulliau sy'n cydymffurfio â VQCov3.1 i gyfrifo -

(a) canlyniad Dysgwr unigol, lle mae'r canlyniad hwnnw'n seiliedig ar fwy nag un Cydran, ac

(b) y canlyniadau ar gyfer gwahanol Ddysgwyr sy'n cymryd yr un Cydran.

VQCov3.4 Lle gall corff dyfarnu ar hyn o bryd gyflawni a/neu farcio fel sy'n arferol yr asesiadau sydd i'w cymryd ar gyfer Cymhwyster Categori 1 y mae'n ei ddarparu, gall ddewis cydymffurfio â VQCov3.1 lle mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

Amod VQCov4 Asesiadau a chanlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori 2 yn haf 2020

VQCov4.1 Mewn perthynas â phob canlyniad a roddir i Ddysgwr o dan Amod VQCov2.1 mewn perthynas â Chymhwyster Categori 2 y mae'n ei ddarparu, lle na all ar hyn o bryd gyflawni a/neu farcio'r asesiadau sydd i'w cymryd ar gyfer y cymhwyster hwnnw fel sy'n arferol, rhaid i gorff dyfarnu –

(a) gan ystyried amcan y cymhwyster, ystyried a yw'n briodol cyhoeddi canlyniad wedi'i gyfrifo i'r Dysgwr hwnnw,

(b) pan fydd o'r farn ei bod yn briodol cyhoeddi canlyniad wedi'i gyfrifo mewn perthynas â'r Dysgwr hwnnw, gymryd pob cam rhesymol i wneud hynny gan gydymffurfio ag unrhyw ofynion, a chan ystyried unrhyw ganllawiau, a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru o dan AmodVQCov3.1 (a),

(c) dim ond pan nad yw'n ystyried ei bod yn briodol cyhoeddi canlyniad wedi'i gyfrifo, neu nid oes tystiolaeth ddigonol i gwrdd â gofynion Cymwysterau Cymru ar gyfer cyfrifo canlyniadau, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y canlyniad yn seiliedig ar lefel y cyrhaeddiad a ddangoswyd gan y Dysgwr mewn asesiad wedi'i Addasu.

VQCov4.2 Pan fydd corff dyfarnu yn Addasu asesiad o dan Amod VQCov4.1(c), rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i wneud hynny

(a) yn unol ag unrhyw ofynion, a

(b) gan ystyried unrhyw ganllawiau

a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru o dan Amod VQCov3.2.

VQCov4.3 Pan fo VQ y mae'n ei ddarparu yn cynnwys mwy nag un Cydran, rhaid i gorff dyfarnu –

a) gyfrifo ganlyniad Cydran yn unol â'r gofynion a gyhoeddir o dan Amod VQCov3.1(a) lle –

(i) ei fod yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, a

(ii) bod digon o dystiolaeth i fodloni'r gofynion hynny, a

b) seilio'r canlyniadau ar gyfer unrhyw Gydrannau sy'n weddill ar Asesiadau wedi'u Haddasu sy'n cydymffurfio â'r gofynion a gyhoeddir o dan Amod VQCov3.2.

VQCov4.4 Gall corff dyfarnu ddod i wahanol safbwyntiau o dan AmodVQCov4.1(a) a (c) mewn perthynas â chanlyniadau ar gyfer gwahanol Ddysgwyr sy'n cymryd yr un Cydran.

VQCov4.5 Lle gall corff dyfarnu ar hyn o bryd gyflwyno a/neu farcio fel sy'n arferol yr asesiadau sydd i'w cymryd ar gyfer Cymhwyster Categori 2 y mae'n ei ddarparu, gall ddewis cydymffurfio â VQCov4.1 lle mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

Amod VQCov5 Asesiadau a chanlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori 3 yn haf 2020

VQCov5.1 Mewn perthynas â phob canlyniad a roddir i Ddysgwr o dan Amod VQCov2.1 mewn perthynas â Chymhwyster Categori 3 y mae'n ei ddarparu, lle na all ar hyn o bryd gyflawni a/neu farcio'r asesiadau sydd i'w cymryd ar gyfer y cymhwyster hwnnw fel sy'n arferol, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau –

(a) bod y canlyniad hwnnw'n seiliedig ar lefel y cyrhaeddiad a ddangoswyd gan y Dysgwr mewn asesiad wedi'i Addasu, a

(b) ei fod yn Addasu'r asesiad hwnnw –

(i) yn unol ag unrhyw ofynion, a

(ii) gan ystyried unrhyw ganllawiau

a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru o dan Amod VQCov3.2.

VQCov5.2 Lle gall corff dyfarnu ar hyn o bryd gyflwyno a/neu farcio fel sy'n arferol yr asesiadau sydd i'w cymryd ar gyfer Cymhwyster Categori 3 y mae'n ei ddarparu, gall ddewis cydymffurfio â VQCov5.1 lle mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

Amod VQCov6 Cymorth i Ganolfannau

VQCov6.1 Rhaid i gorff dyfarnu –

(a) ddarparu arweiniad effeithiol i Ganolfan –

(i) ar ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'r corff dyfarnu yn gofyn amdani gan y Ganolfan er mwyn cyfrifo canlyniad Dysgwr yn unol â'r gofynion a gyhoeddir o dan Amod VQCov3.1(a), ac

(ii) y gall y Ganolfan ofyn yn rhesymol amdano mewn perthynas ag asesiad wedi'i Addasu a ddarperir gan y corff dyfarnu o dan Amod VQCov3.1(b), a

(b) darparu trefniadau clir ac effeithiol er mwyn i'r Ganolfan allu cysylltu â'r corff dyfarnu os yw'n cael anawsterau wrth ddarparu'r wybodaeth honno.

Amod VQCov7 Egwyddorion i’w cymhwyso

VQCov7.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, wrth gydymffurfio ag Amodau VQCov3, VQCov4 a VQCov5, ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i –

(a) gydymffurfio â'r egwyddorion a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru ac a adolygir o bryd i'w gilydd, a

(b) dim ond pan fo gwrthdaro rhwng dau neu fwy o'r egwyddorion hynny, sicrhau cydbwysedd rhwng yr egwyddorion hynny yn unol ag unrhyw ofynion a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru ac a adolygir o bryd i'w gilydd.

Amod VQCov8 Cadw cofnod o wneud penderfyniadau

VQCov8.1 Mewn perthynas â VQ y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu –

(a) gadw cofnod, fel sy'n berthnasol, o –

(i) y rhesymau pam na all ddarparu canlyniad yn unol ag Amodau VQCov3, VQCov4 a VQCov5,

(ii) y dull a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd ganddo i gyfrifo canlyniad yn unol â'r gofynion a gyhoeddwyd o dan Amod VQCov3.1(a), a'r pwysau a roddir ar y dystiolaeth honno,

(iii) y penderfyniadau a wnaeth wrth Addasu asesiad yn unol â'r gofynion, a chan ystyried y canllawiau, a gyhoeddwyd o dan Amod VQCov3.2,

(iv) sut y mae wedi cydymffurfio ag Amod VQCov7.1, gan gynnwys, yn benodol sut y mae wedi ceisio cydbwyso cydymffurfiad â'r egwyddorion yn unol ag Amod VQCov7.1(b),

(v) y rhesymeg dros y penderfyniadau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (i) i (iv) o'r Amod hwn, a

(vi) unrhyw wybodaeth arall a bennir mewn unrhyw ofynion a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd, a

(b) cadw'r cofnod hwnnw ar ffurf a bennir mewn unrhyw ofynion gaiff eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd, a

(c) darparu'r cofnod hwnnw i Cymwysterau Cymru ar gais.

Amod VQCov9 Gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau

VQCov9.1 Mewn perthynas â VQ y mae'n ei ddarparu, rhaid i'r dulliau a fabwysiadwyd gan gorff dyfarnu i bennu canlyniad i Ddysgwr o dan Amodau VQCov3, VQCov4 a VQCov5, fel sy'n berthnasol, fod yn ddigon tryloyw i –

(a) gynnal hyder y cyhoedd yn y cymhwyster,

(b) diwallu anghenion rhesymol Defnyddwyr y cymhwyster,

(c) caniatáu i Ddysgwyr a Chanolfannau ystyried a ddylid apelio o dan Amod I1.

VQCov9.2 Rhaid i gorff dyfarnu sefydlu, cynnal a chydymffurfio â threfniadau –

(a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth a nodir yn Amod VQCov9.3 gael ei darparu ar gais i –

(i) Ganolfan Berthnasol (ar ran Dysgwr), ac

(ii) Ymgeisydd Preifat, a

(b) y gall ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth honno gael ei darparu ar gais i Ddysgwr nad yw'n Ymgeisydd Preifat.

VQCov9.3 Y wybodaeth sydd i'w darparu o dan y trefniadau hynny yw -

(a) yr wybodaeth a ddefnyddir i gyfrifo'r canlyniad a roddwyd i Ddysgwr yn unol â'r gofynion a gyhoeddir o dan AmodVQCov3.1(a), a

(b) yr Addasiadau y mae corff dyfarnu wedi'u gwneud i VQ yn unol â'r gofynion a gyhoeddir o dan AmodVQCov3.2.

VQCov9.4 Rhaid i'r trefniadau –

(a) ddarparu digon o wybodaeth, a

(b) caniatáu amser rhesymol,

i Ddysgwyr a Chanolfannau ystyried a ddylid gofyn am apêl o dan Amod I1.

VQCov9.5 Gall y trefniadau –

(a) nodi mai dim ond ar dalu ffi y bydd y corff dyfarnu yn darparu'r wybodaeth berthnasol;

(b) nodi gofynion rhesymol eraill ar gyfer gwneud cais am y wybodaeth, a

(c) nodi cyfnod amser y mae'n rhaid gofyn am y wybodaeth o'i fewn.

Amod VQCov10 Cyfle asesu yn hydref 2020

VQCov10.1 O ran yr asesiadau sydd i'w cymryd ar gyfer VQ y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau –

(a) lle y bydd fel rheol yn rhoi cyfle rhwng Medi a Rhagfyr mewn unrhyw flwyddyn i Ddysgwyr gymryd yr asesiadau hynny, ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i roi'r cyfle hwnnw yn 2020 i bob Dysgwr –

(i) y byddai fel rheol yn darparu'r cyfle hwnnw iddo,

(ii) a gafodd ganlyniad o dan Amodau VQCov, ac

(iii) a oedd wedi cofrestru neu i fod i gymryd asesiad, ar neu ar ôl 20 Mawrth 2020, a fyddai wedi arwain at gyhoeddi canlyniad, ond ni chyhoeddwyd canlyniad iddo, a

(b) lle nad yw fel rheol yn rhoi cyfle rhwng Medi a Rhagfyr mewn unrhyw flwyddyn i Ddysgwyr gwblhau'r asesiadau hynny, ei fod yn rhoi cyfle o'r fath yn 2020 i'r Dysgwyr hynny a nodir yn Amod VQCov10.1(a) lle mae o'r farn yn rhesymol bod galw digonol am y cyfle hwnnw.

VQCov10.2 Nid yw'r gofyniad yn Amod VQCov10.1(b) yn berthnasol pan fo corff dyfarnu o'r farn yn rhesymol y byddai darparu'r cyfle hwnnw –

(a) yn anymarferol, neu
(b) yn creu baich anghymesur ar y corff dyfarnu neu Ganolfannau.

VQCov10.3 Rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau bod ei ymagwedd tuag at asesiad wedi'i ddarparu o dan Amod VQCov10.1 –

(a) yn lleihau beichiau cyn belled ag y bo modd, a
(b) mor gyflawnadwy â phosibl, gan gynnwys gan Ganolfannau ac Athrawon.

VQCov10.4 Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir iddo gan Cymwysterau Cymru mewn perthynas â darparu cyfleoedd asesu ar gyfer pob VQ.

VQCov10.5 Mewn perthynas â phob asesiad y mae'n ei ddarparu o dan Amodau VQCov10.1 a VQCov10.3 –

(a) nid yw'n ofynnol i gorff dyfarnu gydymffurfio ag Amodau VQCov2 i VQCov9, a

(b) nid yw Amod VQCov1.6 yn gymwys.

Amod VQCov11 Hysbysiadau Cyngor Technegol

VQCov11.1 Rhaid i gorff dyfarnu –

(a) roi sylw i unrhyw Hysbysiad Cyngor Technegol a ddarperir gan Cymwysterau Cymru i'r corff dyfarnu, a

(b) hysbysu Cymwysterau Cymru sut y mae wedi cydymffurfio ag Amod VQCov11.1 o fewn yr amserlen a bennir yn yr Hysbysiad Cyngor Technegol hwnnw.

Gofynion mewn perthynas â chyfrifo canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori 1 a Chymwysterau Cam 2

Mae Amod VQCov3.1(a) yn caniatáu i ni nodi gofynion ac arweiniad mewn perthynas â chyfrifo'r canlyniadau i'w cyhoeddi ar gyfer Cymwysterau Categori 1 yn haf 2020.

Mae'r gofynion hynny hefyd yn berthnasol i'r broses cyfrifo canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori 2 o dan Amod VQCov4.1(b).

Rydym yn nodi ein gofynion mewn perthynas â chanlyniadau wedi'u cyfrifo ar gyfer Cymwysterau Categori 1 a Chymwysterau Categori 2 isod.

Cyfnod cymhwyso

Yn unol â VQCov2.1, mewn perthynas â VQ y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi canlyniad i bob Dysgwr a oedd i fod i gymryd, ar neu ar ôl 20 Mawrth 2020, asesiad a fyddai wedi arwain at gyhoeddi canlyniad. Lle mae canlyniadau wedi'u cyfrifo i gael eu cyhoeddi, byddai hyn ond yn berthnasol i asesiadau a fyddai wedi'u cymryd gan Ddysgwyr rhwng 20 Mawrth 2020 a 31 Gorffennaf 2020.

Dull cyffredinol

Wrth ystyried ei ddull o ddarparu canlyniadau wedi'u cyfrifo ar gyfer Cymhwyster Categori 1 neu Gymhwyster Categori 2 y mae'n eu darparu, rhaid i gorff dyfarnu

(1) nodi'r dystiolaeth berthnasol sydd ar gael ar hyn o bryd ac a fydd o bosibl ar gael mewn perthynas â'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd a phob Dysgwr sy'n ei gymryd,

(2) gwerthuso ansawdd y dystiolaeth honno ac felly'r pwysau y gellir ei roi arni,

(3) sefydlu a chydymffurfio â dull o gyfrifo canlyniadau sydd –
   (a) yn rhoi'r pwys mwyaf ar y dystiolaeth o'r ansawdd uchaf wrth gyfrifo canlyniadau unigol;
   (b) yn cynnwys sicrhau ansawdd canlyniadau unigol, ac
   (c) yn cynnwys gwiriad ar broffil canlyniadau cyffredinol y cymhwyster i sicrhau bod safonau'n debyg i flynyddoedd blaenorol.

Ffynonellau tystiolaeth gwahanol

Ar gyfer pob cymhwyster, rhaid i gorff dyfarnu nodi'r dystiolaeth sydd ar gael a'r dystiolaeth a allai fod ar gael mewn perthynas â'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd a phob Dysgwr sy'n ei gymryd.

Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys ffynonellau y gellir eu defnyddio i gyfrifo canlyniadau unigol ac ym mhroses sicrhau ansawdd corff dyfarnu.

Rhaid i gorff dyfarnu ystyried –

(a) argaeledd y ffynonellau tystiolaeth a nodir yn Nhabl 1,

(b) y pwysau sydd i'w roi ar y dystiolaeth honno, neu'r ymddiriedaeth yn y dystiolaeth honno, pan fydd ar gael, mewn perthynas â'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd a phob Dysgwr sy'n ei gymryd, ac

(c) y modd y gellir defnyddio'r dystiolaeth honno, pan fydd ar gael, mewn perthynas â chyfrifo canlyniadau mewn perthynas â'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd a phob Dysgwr sy'n ei gymryd.

Tabl 1 Ffynonellau tystiolaeth

	Categori / Ffynhonnell tystiolaeth	Disgrifiad	Ffactorau sy'n berthnasol wrth werthuso'r pwysau i'w roi ar y dystiolaeth	Goblygiadau o ran ei defnyddio mewn dull o gyfrifo canlyniadau
1	Marciau a graddau Cydran wedi'i Bancio[3]	Marciau a/neu raddau ar gyfer asesiadau wedi'u cwblhau mewn Cydrannau hyd yn hyn. Mae hyn yn cynnwys – • asesiadau allanol,[4] ac • asesiadau mewnol[5] lle mae'r marciau neu raddau heb fod yn destun prosesau Craffu Safonau Asesu Canolfannau.	Marciau a graddau Cydrannau wedi'u Bancio yw'r modd y bydd canlyniad terfynol fel arfer yn cael ei nodi ar gyfer y cymhwyster mewn blynyddoedd eraill. Bydd marciau a graddau o'r fath wedi bod yn destun prosesau sicrhau ansawdd arferol y corff dyfarnu. O'r herwydd, dylid rhoi'r ymddiriedaeth uchaf i'r dystiolaeth hon bob amser, yn amodol ar y gwiriad sicrhau ansawdd terfynol a ddisgrifir yn y gofynion hyn.	Lle mae'r dystiolaeth hon yn bodoli, dylai bob amser fod yn rhan o'r sail ar gyfer canlyniad terfynol y cymhwyster, naill ai fel elfen gyfrannol ochr yn ochr â ffynonellau tystiolaeth eraill, neu fel sail i gyfrifo canlyniadau ar gyfer Cydrannau nad oes gan Ddysgwr ganlyniad iddynt eto ('Cydrannau sydd ar goll').
2	Marciau a graddau asesu mewnol sydd heb fod yn destun prosesau Craffu Safonau Asesu Canolfannau hyd yn hyn.	Marciau neu raddau asesu mewnol sydd wedi'u cynhyrchu gan Ganolfan, ond sydd heb fod yn destun Craffu Safonau Asesu Canolfannau gan y corff dyfarnu.	Rhaid i gorff dyfarnu ystyried • cyflawnrwydd y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan Ddysgwyr, • dibynadwyedd marcio'r Ganolfan mewn blynyddoedd blaenorol, a • cynefindra'r Ganolfan â'r asesiadau perthnasol a'r meini prawf marcio.	Pan fydd y corff dyfarnu o'r farn bod digon o ymddiriedaeth ym marciau neu raddau'r Ganolfan, mae'n debygol y bydd yn briodol iddynt gyfrannu at ganlyniad terfynol cymhwyster, naill ai fel cydran gyfrannol ochr yn ochr â

[3] Yn y gofynion hyn, rydym yn defnyddio 'graddau' i gyfeirio at lefelau cyrhaeddiad penodol fel A, B, C, er enghraifft, neu Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.
[4] Yn y gofynion hyn, mae 'asesiad allanol' yn cyfeirio at asesiad sydd wedi'i osod a'i farcio gan y corff dyfarnu. Mae hyn yn cynnwys asesiadau trwy arholiad, profion ysgrifenedig, perfformiadau neu ddeunyddiau ysgrifenedig lle mae'r dasg yn cael ei gosod a'i marcio gan y corff dyfarnu. Mae asesiad trwy arholiad yn asesiad sydd (i) wedi'i osod gan gorff dyfarnu, (ii) wedi'i ddylunio i'w gymryd ar yr un pryd gan yr holl Ddysgwyr perthnasol ar amser a bennir gan y corff dyfarnu, a (iii) wedi'i gymryd o dan amodau a bennir gan y corff dyfarnu (gan gynnwys amodau sy'n ymwneud â goruchwylio Dysgwyr yn ystod yr asesiad a hyd yr asesiad).
[5] Yn y gofynion hyn, mae 'asesiad mewnol' yn asesiad sy'n cael ei farcio gan Ganolfan ac yna'n destun Cymedroli neu ddilysu gan y corff dyfarnu.

				ffynonellau tystiolaeth eraill, neu fel sail i gyfrifo canlyniadau ar gyfer Cydrannau sydd ar goll.
3	Gwybodaeth a ddarperir gan Ganolfannau mewn perthynas â pherfformiad tebygol	Gall corff dyfarnu ofyn i Ganolfan roi barn am y canlyniad y mae pob Dysgwr yn fwyaf tebygol o'i gyflawni. Yn dibynnu ar strwythur y cymhwyster a chyfran y Cydrannau a gwblhawyd eisoes, gellid gofyn i Ganolfan roi barn mewn perthynas â pherfformiad tebygol y Dysgwr – • mewn cydrannau unigol nad yw'r Dysgwr wedi gwneud asesiad ar eu cyfer, neu • yn y cymhwyster yn gyffredinol. Gall corff dyfarnu hefyd ofyn i Ganolfan am wybodaeth arall er mwyn cefnogi'r broses cyfrifo canlyniadau, fel trefn restrol ar gyfer Dysgwyr. Gallai hyn gynnwys trefn restrol gyffredinol o Ddysgwyr neu drefn restrol Dysgwyr ym mhob gradd.	Wrth asesu'r pwysau y dylid ei roi ar wybodaeth a ddarperir gan Ganolfan am berfformiad tebygol y Dysgwr. Rhaid i gorff dyfarnu ystyried – • y model cyflenwi a ddefnyddir ac a oes gan y Ganolfan wybodaeth ffurfiannol dda neu ddata asesu ar ei Dysgwyr, • hirhoedledd cymhwyster a chynefindra tebygol y Ganolfan â'r cymhwyster, gan gynnwys canlyniadau blaenorol y Ganolfan, • graddfa'r cyswllt rheolaidd rhwng y corff dyfarnu a'r Ganolfan, gan gynnwys trwy ddarparu arweiniad a gweithgareddau safoni, • unrhyw ddata hanesyddol a gasglwyd gan y corff dyfarnu sy'n nodi cywirdeb y canlyniadau amcangyfrifedig neu ragfynegol a ddarparwyd yn flaenorol gan y Ganolfan ar gyfer y cymhwyster neu Gydran, • dyluniad y cymhwyster, er enghraifft p'un ai, mewn cymhwyster modiwlaidd iawn, y mae lefel yr ymddiriedaeth mewn gwybodaeth a ddarperir gan y Ganolfan mewn perthynas â graddau	Bydd gwybodaeth a ddarperir gan Ganolfannau mewn perthynas â pherfformiad tebygol Dysgwyr fel arfer yn ddefnyddiol iawn lle gellir rhoi digon o ymddiriedaeth ynddi. Rhaid i'r dulliau sicrhau ansawdd a ddefnyddir gan gorff dyfarnu mewn perthynas â'r canlyniad a gyfrifir adlewyrchu lefel yr ymddiriedaeth y mae'n ei rhoi yn y dystiolaeth hon.

			Cydran unigol yn uwch nag ar gyfer gwybodaeth a ddarperir mewn perthynas â pherfformiad tebygol yn y cymhwyster yn gyffredinol, ac • unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae gan y corff dyfarnu fynediad ati	
4	Data hanesyddol am natur y cymhwyster	Gall dadansoddiad o berthnasoedd hanesyddol rhwng gwahanol Gydrannau yn y cymhwyster ddangos bod perfformiad mewn un Cydran yn rhagfynegol iawn o berfformiad mewn Cydran arall. Gall y mathau hyn o ddadansoddiadau fod ar ffurf dadansoddiadau cydberthynol neu ddadansoddiadau fwy soffistigedig.	Bydd graddau'r pwysau a roddir ar y dystiolaeth hon yn dibynnu ar gryfder y gydberthynas rhwng perfformiad Dysgwyr mewn gwahanol Gydrannau. Bydd hyn yn ei dro yn dibynnu ar natur a chadernid y dadansoddiad.	Lle mae digon o ymddiriedaeth, gall y dystiolaeth hon fod yn arbennig o ddefnyddiol – • i gyfrifo canlyniadau ar gyfer unrhyw Gydrannau coll lle mae cyfran resymol o'r dystiolaeth a gynhyrchir gan Ddysgwyr eisoes wedi'i bancio, a/neu • wrth sicrhau ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan Ganolfannau mewn perthynas â pherfformiad tebygol Dysgwyr.

5	Data Canolfannau hanesyddol	Mae hyn yn cynnwys ystod o ddata a gwybodaeth am Ganolfan benodol y gall corff dyfarnu ei ddal. Mae un enghraifft ddefnyddiol yn debygol o fod yn ddadansoddiadau o ganlyniadau cymwysterau ar lefel Canolfan i ddeall graddfa'r sefydlogrwydd neu'r amrywioldeb dros amser. Efallai y bydd gwybodaeth arall ar gael a all fod yn rhan o sicrhau ansawdd gwybodaeth a ddarperir gan Ganolfan – • proffiliau risg Canolfannau, • gwybodaeth o ymweliadau'r corff dyfarnu â'r Ganolfan, a • chofnodon o unrhyw ymchwiliadau mewn perthynas â'r Ganolfan.	Mae canlyniadau sefydlog ar lefel Canolfan yn debygol o ennyn mwy o ymddiriedaeth o ystyried eu gwerth mwy rhagfynegol. Bydd y graddau o ymddiriedaeth a roddir ym mhob math o ddata hanesyddol y Ganolfan yn amrywio gan ddibynnu ar ffactorau fel pa mor ddiweddar y'i lluniwyd a pha mor gyflawn ydyw.	Gall tystiolaeth hanesyddol o berfformiad Canolfan fod yn ddefnyddiol ar gyfer amlinellu disgwyliadau ynghylch dosbarthiad tebygol canlyniadau y gellir ei defnyddio ar gyfer – • cyfrifo'r canlyniadau ar gyfer Dysgwyr yn y Ganolfan gan y corff dyfarnu, • man cychwyn i Ganolfannau o ran darparu gwybodaeth mewn perthynas â pherfformiad tebygol Dysgwyr i'r corff dyfarnu, neu • sicrhau ansawdd gwybodaeth o'r fath a ddarperir gan Ganolfan.

6	Data cyrhaeddiad blaenorol	Ar gyfer rhai cymwysterau, gall data ar gyrhaeddiad blaenorol Dysgwyr mewn asesiad blaenorol fod ar gael a gall y corff dyfarnu ei ddefnyddio fel mater o drefn wrth gynnal safonau arferol. Ar gyfer cymwysterau Lefel 2, mae'n debygol mai data Cyfnod Allweddol 2 neu ddata cymhwyster Lefel 1 fydd hyn. Ar gyfer cymwysterau Lefel 3, mae'n debygol o fod yn ddata 'TGAU cymedrig' neu ddata cymhwyster Lefel 2 arall.	Lle mae'r berthynas rhwng data cyrhaeddiad blaenorol a chanlyniadau cymhwyster yn cael ei deall yn dda gan y corff dyfarnu a thystiolaeth bod hynny'n rhagfynegol, yna rhaid rhoi mwy o bwysau ar dystiolaeth o'r fath. Lle ceir tystiolaeth wan neu ddim tystiolaeth o ragfynegi canlyniadau cymwysterau (e.e. gwerthoedd cydberthynol isel) rhaid rhoi llai o bwysau ar y dystiolaeth. Rhaid i gorff dyfarnu ystyried a yw ei gymhwyster yn profi gwahanol ofynion a galluoedd i'r asesiad y mae ganddo ddata hanesyddol ar ei gyfer.	Lle gellir rhoi ymddiriedaeth uchel ynddi, bydd defnyddio tystiolaeth o'r fath yn fwyaf priodol yng nghyd-destun - • llunio proffiliau Canolfannau o ganlyniadau Dysgwyr neu • ar gyfer sicrhau ansawdd unrhyw wybodaeth a ddarperir gan Ganolfan mewn perthynas â pherfformiad tebygol Dysgwyr. Ni ddylid defnyddio tystiolaeth o'r fath i ddarparu sylfaen uniongyrchol ar gyfer cyfrifo canlyniadau Dysgwyr unigol.

Nid ydym wedi cynnwys yn y tabl uchod dystiolaeth a gynhyrchwyd gan Ddysgwyr nad yw wedi'i marcio eto gan Ganolfan na chorff dyfarnu. Mae hyn oherwydd, o ystyried y cyfyngiadau statudol cyfredol ar weithrediad Canolfannau ac ar symudiadau pobl yn gyffredinol, mae'n debygol mai ychydig o Ganolfannau a allai drefnu casglu ac anfon tystiolaeth Dysgwyr i'w cyrff dyfarnu.

Fodd bynnag, lle mae tystiolaeth o'r fath eisoes wedi'i darparu i Ganolfan neu gorff dyfarnu gellir ei defnyddio fel sy'n briodol.

Fel arall, lle gellir ei chasglu yn y dyfodol, gellir defnyddio tystiolaeth o'r fath fel rhan o broses sicrhau ansawdd cyrff dyfarnu.

Datblygu dull sy'n sicrhau'r dystiolaeth fwyaf dibynadwy

Unwaith y bydd corff dyfarnu wedi nodi a gwerthuso'r ffynonellau tystiolaeth sydd ar gael iddo, neu y gall eu sicrhau o fewn yr amserlen ofynnol, rhaid iddo ddatblygu dull o gyfrifo canlyniadau sy'n rhoi'r pwysau mwyaf ar y dystiolaeth y gellir ymddiried ynddi fwyaf.

Rhaid i'r dull hwnnw gynnwys dwy elfen gan ddefnyddio'r dystiolaeth berthnasol –

(a) cyfrifiad cychwynnol canlyniad pob Dysgwr, a

(b) gwiriad sicrhau ansawdd ar y cyfrifiad cychwynnol hwnnw.

Trafodir y gwiriad cyffredinol ychwanegol ar ganlyniadau ar lefel cymhwyster yn yr adran nesaf.

Trothwy tystiolaethol isaf

Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod ei ddull yn defnyddio o leiaf un ffynhonnell tystiolaeth y gellir ymddiried ynddi yn rhesymol ynghyd â sylfaen ddigon cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd.

Mae hyn yn golygu, lle mae –

(a) ychydig neu ddim data Cydran wedi'i fancio,
(b) ymddiriedaeth annigonol mewn gwybodaeth a ddarperir gan Ganolfan mewn perthynas â pherfformiad tebygol Dysgwyr, ac
(c) ychydig o gyfle neu dystiolaeth i sicrhau ansawdd y dystiolaeth honno,

caiff corff dyfarnu benderfynu nad yw'n gallu cyhoeddi canlyniad wedi'i gyfrifo sydd â digon o ddilysrwydd a dibynadwyedd i fodloni Egwyddorion 1 a 2 fel y nodir o dan Amod VQCov7.1.

Yn ychwanegol at ei werthusiad ar lefel cymhwyster, rhaid i gorff dyfarnu ystyried a oes rhai Dysgwyr, ond nid eraill, nad yw'r dystiolaeth sydd ar gael amdanynt yn cwrdd â'r trothwy isaf.

Pan nad yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn cwrdd â'r trothwy isaf, rhaid i gorff dyfarnu felly fodloni gofynion Amod VQCov3.2, fel sy'n berthnasol –

(a) mewn perthynas â'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd, neu
(b) mewn perthynas â Dysgwyr unigol.

Dylid nodi bod Amod VQCov3.2 yn rhwymedigaeth i gymryd pob cam rhesymol i fodloni'r gofynion a nodir o dan yr Amod hwnnw. Efallai y bydd rhai achosion lle nad yw'n rhesymol, oherwydd y baich anghymesur, i gorff dyfarnu ddarparu asesiadau wedi'u haddasu ar gyfer lleiafrif o Ddysgwyr sy'n cymryd cymhwyster mewn amgylchiadau lle mae'n rhaid iddo hefyd ddarparu canlyniadau wedi'u cyfrifo ar gyfer y mwyafrif.

Mewn achosion o'r fath, o dan Amod VQCov8.1(a), rhaid i gorff dyfarnu gadw cofnod o pam ei fod o'r farn nad yw'r trothwy tystiolaethol isaf yn cael ei fodloni mewn perthynas â'r Dysgwyr perthnasol a pham y byddai'n faich anghymesur i ddarparu asesiadau wedi'u haddasu ar eu cyfer. Rhaid i gorff dyfarnu hefyd fodloni gofynion Amod VQCov10.1 mewn perthynas â Dysgwyr o'r fath.

Gwahaniaethau yn y dystiolaeth sydd ar gael i Ddysgwyr sy'n cymryd yr un cymhwyster

Fel y trafodwyd uchod, efallai y bydd achosion, i rai Dysgwyr sy'n cymryd cymhwyster, lle nad oes tystiolaeth ddigonol ar gael sy'n cwrdd â'r trothwy isaf.

Ar gyfer rhai cymwysterau, hyd yn oed pan fo tystiolaeth yn cwrdd â'r trothwy hwnnw, mae'n bosibl na fydd yr ystod o dystiolaeth sydd ar gael yn unffurf i bob Dysgwr, yn enwedig lle mae graddfa uchel o amrywioldeb o ran –

(a) sut mae'r cwrs addysgu ar gyfer cymhwyster yn cael ei ddarparu gan Ganolfannau,
(b) y pwynt y cofrestrir Dysgwyr ar gyfer asesiadau neu
(c) sut mae Craffu Safonau Asesu Canolfannau yn cael ei gynnal gan y corff dyfarnu.

Er enghraifft, efallai bod rhai Dysgwyr wedi cymryd cyfran lawer uwch o'r asesiadau gofynnol ar gyfer cymhwyster na Dysgwyr eraill, hyd yn oed o fewn yr un Canolfan neu ddosbarth.

Mewn achosion o'r fath –

(a) efallai y bydd angen i gorff dyfarnu ddefnyddio gwahanol ffynonellau, neu gyfuniadau o ffynonellau, i gyfrifo canlyniadau ar gyfer gwahanol Ddysgwyr, a
(b) rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, fel rhan o'i sicrwydd ansawdd, nad yw'r gwahanol ddulliau cyfrifo a ddefnyddir ar gyfer gwahanol Ddysgwyr yn peri mantais nac anfantais systematig i'r Dysgwyr hynny.

Gwybodaeth a ddarperir gan Ganolfannau

Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw wybodaeth a ddarperir gan Ganolfan mewn perthynas â pherfformiad tebygol Dysgwyr y mae'n ei defnyddio i gyfrifo canlyniadau yn seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth sydd gan y Ganolfan gan gynnwys, lle mae ar gael –

(a) lefel cyrhaeddiad Dysgwyr blaenorol yn y Ganolfan mewn asesiadau ar
(b) gyfer y cymhwyster,
(c) gwahaniaethau perthnasol ym mhroffil Dysgwyr yn y garfan gyfredol yn y Ganolfan o gymharu â charfannau blaenorol,
(d) asesiadau ffurfiol ac anffurfiol blaenorol ar gyfer Dysgwyr cyfredol,
(e) ffug arholiadau ar gyfer Dysgwyr cyfredol, a
(f) gwaith dosbarth a gwaith cartref ar gyfer y Dysgwyr cyfredol.

Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y Ganolfan yn ystyried perfformiad pob Dysgwr yn ystod y cwrs astudio ac yn llunio barn realistig o'r canlyniad y byddai'r Dysgwr wedi bod yn fwyaf tebygol o'i gael pe bai wedi cwblhau'r Gydran neu'r cymhwyster perthnasol. Dylai hyn gynnwys canlyniadau U (heb ei raddio) neu fethu, pan gânt eu defnyddio.

Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod Canolfannau hefyd yn ystyried effaith debygol unrhyw Addasiad Rhesymol y byddai Dysgwr wedi cael mynediad iddo. Er enghraifft, os yw Dysgwr yn gymwys i gael amser ychwanegol mewn asesiad trwy arholiad, yn y wybodaeth y mae'n ei darparu mewn perthynas â'r Dysgwr hwnnw, rhaid i'r Ganolfan adlewyrchu sut mae'n ystyried y byddai'r Dysgwr wedi perfformio o gael yr amser llawn y byddai ef neu hi yn wedi bod â'r hawl i'w gael.

Yn fwy eang, rhaid i gorff dyfarnu gyfarwyddo Canolfannau i lunio'u barnau mewn ffordd ddiduedd, gytbwys a diragfarn fel bod y wybodaeth a ddarperir ganddynt, cyn belled ag y bo modd, yn osgoi tuedd ac nad yw'n peri mantais neu anfantais systemetig i Dysgwyr trwy gael neu beidio â chael Nodwedd neu anghenion addysgol arbennig.

Rhaid i gorff dyfarnu gyfarwyddo Canolfan i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â Dysgwr y mae ganddi ddigon o dystiolaeth ar ei gyfer.
Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir iddo gan Ganolfan wedi'i hadolygu gan –

(a) Athrawon neu Aseswyr pwnc, a'r
(b) pennaeth adran perthnasol neu gyfwerth neu, lle nad oes person mewn rôl o'r fath, pennaeth y ganolfan neu gyfwerth.

O dan Amod VQCov9.1, rhaid i gorff dyfarnu ddarparu arweiniad effeithiol i Ganolfan ar ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'r corff dyfarnu yn gofyn iddi ei darparu er mwyn cyfrifo canlyniadau.

Sicrhau ansawdd gwybodaeth a ddarperir gan Ganolfannau
Pan ddefnyddir gwybodaeth a ddarperir gan Ganolfannau mewn perthynas â pherfformiad tebygol Dysgwyr fel rhan o'r dull cyffredinol o gyfrifo canlyniadau, rhaid i'r corff dyfarnu ddilyn prosesau sicrhau ansawdd sy'n tynnu ar ffynonellau eraill o dystiolaeth y gellir ymddiried ynddynt, lle mae ar gael, fel proffiliau perfformiad Canolfan hanesyddol, proffiliau risg Canolfan neu ragfynegiadau yn seiliedig ar ddata Cydrannau wedi'i fancio.

Mae'r dulliau sicrhau ansawdd gorau yn debygol o gynnwys mwy nag un ffynhonnell o dystiolaeth ddibynadwy. Mae cymwysterau mwy a mwy sefydledig yn debygol o fod â mwy o ffynonellau tystiolaeth ar gael i gyfrannu at brosesau sicrhau ansawdd.

Rhaid i'r corff dyfarnu ddefnyddio'r dull sicrhau ansawdd, lle bo hynny'n angenrheidiol, i –

(a) herio'r Ganolfan i ddarparu tystiolaeth ychwanegol i gefnogi ei dyfarniadau, a/neu
(b) addasu canlyniadau awgrymedig y Ganolfan ei hun yn uniongyrchol at ddibenion safoni.

Enghreifftiau o ddulliau y gellir eu defnyddio i gyfrifo a sicrhau ansawdd canlyniadau

<u>Enghraifft 1</u>
Pan fo cyfran gymharol uchel o ddata Cydran wedi'i fancio, gellir defnyddio hyn fel sail uniongyrchol ar gyfer cyfrifo canlyniadau Dysgwyr ar gyfer Cydrannau sydd ar goll. Mae hwn yn aml yn ddull a ddefnyddir mewn amgylchiadau cyffredin lle penderfynwyd bod Dysgwr yn 'absennol gyda rheswm da' ac yn derbyn dyfarniad 'aegrotat' wrth i'r corff dyfarnu gymhwyso trefniadau Ystyriaeth Arbennig.
Efallai y bydd nifer o wahanol ffyrdd o gyfrifo canlyniadau ar gyfer y Cydrannau sydd ar goll, fel –

(a) aseinio cyfartaledd holl ganlyniadau Cydrannau sydd ar gael, neu
(b) pwysoli rhai Cydrannau yn fwy nag eraill.

Lle mae cyfran uchel o ddata Cydrannau wedi'i fancio, gallai'r agregu gael ei gwblhau heb gyfrifo canlyniad ar wahân ar gyfer unrhyw Gydran sydd ar goll.

Wrth ddewis ei ddull cyfrifo, rhaid i gorff dyfarnu brofi gwahanol ddulliau i fodloni ei hun bod y dull sy'n cael ei fabwysiadu'n cynrychioli'r dull tecaf o gyfrifo canlyniadau. Wrth wneud hynny, rhaid i gorff dyfarnu ddefnyddio data hanesyddol o gyfresi blaenorol a blynyddoedd blaenorol lle mae hwn ar gael a lle y bernir bod ganddo ddigon o bwysau i fod yn ddefnyddiol.

Mae'r broses hon o archwilio gwahanol ffyrdd o gyfrifo canlyniadau yn cynrychioli un math o sicrhau ansawdd. Yn ogystal, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, rhaid i sicrhau ansawdd ystyried a allai'r dull a ddewiswyd gael effaith negyddol ar grŵp penodol o Ddysgwyr ac, os felly, sut y gellid lliniaru hynny.

Enghraifft 2
Efallai bod gan gymhwyster gyfran gymharol isel o ddata Cydrannau wedi'i fancio, ond bod gan y corff dyfarnu lefel uchel o ymddiriedaeth mewn gwybodaeth a ddarperir gan Ganolfannau mewn perthynas â pherfformiad tebygol Dysgwyr, naill ai ar gyfer y Cydrannau sydd ar goll neu rai anghyflawn neu ar gyfer y cymhwyster yn gyffredinol.

Yn yr enghraifft hon, dylai'r dull sicrhau ansawdd dynnu ar ffynonellau eraill o dystiolaeth y gellir ymddiried ynddynt fel proffiliau perfformiad Canolfan hanesyddol, proffiliau risg y Ganolfan neu ragfynegiadau yn seiliedig ar ddata Cydrannau wedi'i fancio sydd ar gael.

Gwiriad cyffredinol ar y canlyniadau

Yn ogystal â sicrhau ansawdd canlyniadau wedi'u cyfrifo ar gyfer Dysgwr unigol, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod ei ddulliau yn cynnwys gwirio a yw proffil canlyniadau'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd yn unol â disgwyliadau yn seiliedig ar flynyddoedd blaenorol a gwybodaeth berthnasol arall.

Rhaid cynnal y gwiriad hwnnw cyn cyhoeddi'r canlyniadau. Os oes gwahaniaeth sylweddol ym mhroffil y canlyniadau o gymharu â blynyddoedd blaenorol, rhaid i gorff dyfarnu ail-werthuso ei ganlyniadau wedi'u cyfrifo ar lefel Dysgwr a'i ddulliau o sicrhau ansawdd.

Rhaid i gorff dyfarnu hefyd sicrhau, wrth ddatblygu ei ddulliau sicrhau ansawdd, ei fod yn ystyried y gwiriad ar ganlyniadau er mwyn lleihau'r risg bod anghysondeb sylweddol rhwng y canlyniadau sydd wedi bod yn destun sicrhau ansawdd a'r proffil canlyniadau disgwyliedig.

Gofynion mewn perthynas ag Addasu asesiadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol (VQ)

Mae Amod VQCov3.2 yn caniatáu i ni nodi gofynion ac arweiniad mewn perthynas ag asesiadau ar gyfer Cymwysterau Categori 1 yng ngwanwyn a haf 2020.

Mae'r gofynion hynny hefyd yn berthnasol i asesiadau ar gyfer Cymwysterau Categori 2 o dan Amod VQCov4.2 a Chymwysterau Categori 3 o dan Amod VQCov5.1.

Rydym yn nodi ein gofynion mewn perthynas ag asesiadau yng ngwanwyn a haf 2020 ar gyfer cymwysterau VQ isod.

Gofynion cyffredinol mewn perthynas ag Addasiadau

Mae nifer o ffyrdd y gall corff dyfarnu wneud newidiadau i VQ y mae'n ei ddarparu er mwyn cynyddu i'r eithaf nifer y Dysgwyr sy'n derbyn canlyniadau y gwanwyn a'r haf hwn.

Mae'r rhain yn cynnwys –

(a) newid y ffordd y mae asesiadau'n cael eu cyflwyno, er enghraifft trwy ddefnyddio prawf ar-lein yn hytrach na phrawf papur, neu gynnal asesiad o bell yn hytrach nag wyneb yn wyneb,
(b) addasu dulliau asesu, er enghraifft trwy ddefnyddio efelychiad ymarferol yn lle arsylwad, neu drafodaeth broffesiynol yn lle arddangosiad ymarferol,
(c) newid gofynion Arolygu, er enghraifft trwy ganiatáu Arolygu ar-lein fel y gellir cynnal asesiadau mewn ystod ehangach o leoliadau,
(d) hepgor neu addasu profiad gwaith neu ofynion lleoliad, er enghraifft caniatáu i Ddysgwyr ymgymryd â chyfnod byrrach o brofiad gwaith, neu
(e) newid dull sicrhau ansawdd cymhwyster, er enghraifft trwy ganiatáu i safoni neu Craffu Safonau Asesu Canolfannau ddigwydd o bell neu ar-lein.

Ym mhob achos, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw Addasiadau y mae'n eu gwneud mewn perthynas ag asesiad ar gyfer VQ yn unol â'r egwyddorion a nodir o dan Amod VQCov7.1.

Yn benodol, rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i leihau risgiau i ddilysrwydd trwy sicrhau bod sylw i feysydd allweddol cynnwys y cymhwyster yn cael ei gadw mewn unrhyw asesiad wedi'i Addasu.

Rhaid i gorff dyfarnu weithredu o fewn terfynau ei allu a'i gymhwysedd yn unig.

Pan nad yw corff dyfarnu yn ystyried yn rhesymol y bydd unrhyw Addasiadau y gall eu gwneud yn arwain at asesiad sy'n darparu canlyniadau dilys a dibynadwy, ni ddylai geisio darparu asesiad o'r fath. Yn hytrach, dylai ohirio darparu asesiadau.

Ystyriaethau cydraddoldeb

Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, wrth wneud unrhyw Addasiadau i asesiad ar gyfer VQ y mae'n ei ddarparu, ei fod yn Lleihau Tuedd, cyn belled ag y bo modd.

Fodd bynnag, rhaid i gorff dyfarnu beidio ag ymatal rhag darparu asesiad wedi'i Addasu dim ond oherwydd bod darparu'r asesiad hwnnw'n arwain at anfantais na ellir ei hosgoi i Ddysgwyr â Nodwedd neu anghenion addysgol arbennig.

Ymhob achos, rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â gofynion Amod D2 ac Amod G6.

Cymwysterau proffesiynol a thrwyddedau i ymarfer

Pan fo VQ y mae'n ei ddarparu yn gweithredu fel trwydded i ymarfer, neu'n cael ei ddefnyddio i roi mynediad i broffesiwn penodol, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn taro cydbwysedd priodol rhwng –

(a) cynnal dilysrwydd y cymhwyster er mwyn cyflawni ei amcan, a

(b) gwneud Addasiadau i asesiadau er mwyn cynyddu nifer y canlyniadau y gellir eu rhoi i Ddysgwyr yn unol â'r egwyddorion a nodir o dan Amod VQCov7.1.

Mewn perthynas â chymwysterau o'r fath, dylai corff dyfarnu rhoi mwy o bwyslais ar gynnal dilysrwydd y cymhwyster, hyd yn oed pan fydd hyn yn golygu nad yw'n bosibl darparu asesiadau.

Rydym yn cydnabod, yn dibynnu ar amcan y cymhwyster a'r ffyrdd gaiff ei ddefnyddio, y gallai fod gan gyrff rheoleiddio a goruchwylio proffesiynol y sector farn o bosibl ar Addasiadau a ganiateir neu ddulliau eraill i'w cymryd wrth asesu a mater y canlyniadau. Gallant hefyd chwarae rôl wrth sicrhau dulliau cyson ar draws cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau tebyg, neu sydd ag amcan tebyg.

Wrth ystyried unrhyw Addasiadau mewn perthynas ag asesiad ar gyfer VQ y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu ystyried unrhyw ofynion neu ganllawiau penodol a gyhoeddir gan unrhyw gorff proffesiynol neu sector perthnasol.

Rhaid i gorff dyfarnu beidio â cheisio dilyn y gofynion a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan gorff o'r fath lle byddai gwneud hynny'n torri'r egwyddorion a nodir o dan Amod VQCov7.1.

Egwyddorion i'w cymhwyso

Mae Amod VQCov7.1 yn caniatáu i ni nodi egwyddorion y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio â hwy wrth gyfrifo canlyniadau ac Addasu asesiadau ar gyfer cymwysterau VQ, yn ogystal â'r cydbwysedd i'w gyflawni pan fydd yr egwyddorion hynny'n gwrthdaro.

Rydym yn nodi'r egwyddorion, a'r cydbwysedd sydd i'w gyflawni rhyngddynt, ar gyfer dibenion Amod VQCov7.1 isod.

Yr egwyddorion

Egwyddor 1 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio cyhoeddi canlyniadau ar gyfer gwanwyn a haf 2020 –

(a) sy'n cwrdd â gofynion Amodau VQCov, ac

(b) yn benodol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth (p'un ai o asesiad neu fel arall) sy'n sicrhau eu bod yn ddigon dilys a dibynadwy,

i gynifer o Ddysgwyr â phosib sy'n cymryd VQ y mae'n ei ddarparu.

Egwyddor 2 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau bod pob canlyniad a gyhoeddir ganddo mor ddibynadwy â phosibl ac yn adlewyrchu, cyn belled ag y bo modd –

(a) lefel cyrhaeddiad bosibl y Dysgwr yn haf 2020, lle mae'r canlyniad hwnnw wedi'i gyfrifo, ac

(b) ymhob achos arall, lefel cyrhaeddiad y Dysgwr fel y dangosir mewn asesiad ar gyfer y cymhwyster.

Egwyddor 3 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau bod ei ddull –

(a) yn lleihau beichiau cyn belled ag y bo modd, a

(b) mor gyflawnadwy â phosibl, gan gynnwys gan Ganolfannau ac Athrawon, gyda goruchwyliaeth briodol gan Cymwysterau Cymru.

Egwyddor 4 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, o fewn yr un cymhwyster yn unol â blynyddoedd blaenorol.

Egwyddor 5 –Rhaid i gorff dyfarnu geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, ar draws cymwysterau tebyg sy'n cael eu darparu gan y corff dyfarnu a chan gyrff dyfarnu eraill.

Y cydbwysedd rhwng yr egwyddorion

Trefnir yr egwyddorion mewn hierarchaeth gydag Egwyddor 1 ar y brig ac Egwyddor 5 ar y gwaelod.

Lle mae gwrthdaro rhwng dwy egwyddor neu fwy fel bod cydymffurfio ag un egwyddor yn lleihau i ba raddau y gall corff dyfarnu gydymffurfio ag un arall, rhaid i'r corff dyfarnu –

(a) roi blaenoriaeth i'r egwyddorion yn unol â'u hierarchaeth, gyda'r flaenoriaeth fwyaf yn cael ei rhoi i gydymffurfio ag egwyddorion ymhellach i fyny'r hierarchaeth, a

(b) heb ragfarnu'r gofyniad uchod, sicrhau cydymffurfiad â'r holl egwyddorion i'r graddau mwyaf posibl.